------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 61(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiynau Brys

**Cwestiwn Brys 1**

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gorwariant o £150 miliwn gan fyrddau iechyd lleol eleni? EAQ(5)0153(HWS)**W**

**Cwestiwn Brys 2**

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:**

**Vikki Howells (Cwm Cynon):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i'r nifer fawr o danau glaswellt dros y penwythnos? EAQ(5)0126(CC)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017

(15 munud)

**NDM6272** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2017.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 4 Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017

(15 munud)

**NDM6271** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Chwefror 2017.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2017
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pedolwyr (Cofrestru)

(15 munud)

**NDM6269 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried y darpariaethau yn y Bil Pedolwyr (Cofrestru), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(ii).

'Bil Pedolwyr (Cofrestru)'

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Cynnig i atal dros dro Reol Sefydlog 11.16 i ganiatáu i'r eitem nesaf o fusnes a Dadl Fer ddydd Mercher gael eu trafod (5 munud)

**NNDM6279 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu:

a) i NDM6267, a gyflwynwyd gan David Rees, gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 28 Mawrth 2017; a

b) i Ddadl Fer NDM6266, a gyflwynwyd gan Dawn Bowden, gael ei thrafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 29 Mawrth 2017.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Gymru wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd (Ailddechrau o 22 Mawrth)

(60 munud)

**NDM6267** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar ei Ymchwiliad i'r goblygiadau i Gymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ionawr 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2017.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i’r cynnig hwn.**

## 7 Dadl: Yr Adolygiad o Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol - Tynnwyd yn ôl

(60 munud)

**NDM6270** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cytuno bod gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol swyddogaeth allweddol:

a) fel lleoedd gwerthfawr ar gyfer natur ac o safbwynt creu manteision cyhoeddus a phreifat drwy wahanol wasanaethau;

b) o safbwynt rheoli'n gynaliadwy adnoddau naturiol a chefnogi cymunedau gwledig llewyrchus.

2. Yn cytuno bod gwerth arbennig i bob tirwedd, yn unol ag ysbryd 'bro', sydd wrth wraidd hunaniaeth cymuned a'r ffordd y mae llawer o bobl yng Nghymru'n mynegi eu teimlad unigryw o berthyn i le penodol.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

(120 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 fel y cytunwyd gan y Cynulliad ar 21 Mawrth 2017.

**Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Tir sy’n rhannol yng Nghymru ac yn rhannol yn Lloegr**

35, 37, 32, 36, 29

**2. Cyfraddau treth a bandiau treth**

38, 39, 33, 40, 41, 42

**3. Cyfraddau treth a bandiau treth - sylwadau gan awdurdodau lleol**

30

**4. Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch - prif fuddiannau**

7, 8, 12

**5. Technegol – croesgyfeiriadau**

9, 10, 11, 18, 19, 20, 24, 28

**6. Technegol – gwelliannau drafftio**

13, 15, 16, 6

**7. Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch – dirprwyon**

14, 21

**8. Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch – eiddo a etifeddir**

17

**9. Technegol – cyfrifo cydnabyddiaeth drethadwy**

1, 2

**10. Technegol – diffiniadau**

25, 26, 27, 4, 5

**11. Technegol – trafodiadau gan bartneriaeth: gwelliannau drafftio**

22, 23

**12. Pŵer i ddiwygio'r cyfnod pan fo rhaid dychwelyd ffurflenni treth**

3

**13. Adolygiad annibynnol o'r dreth trafodiadau tir**

31

**14. Canllawiau gan Weinidogion Cymru i ACC ar weinyddu treth trafodiadau tir**

34

Dogfennau Ategol
[Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)]
[Memorandwm Esboniadol]
[Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli]
[Grwpio Gwelliannau]

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 29 Mawrth 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 23 Mawrth 2017 i'w hateb ar 28 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0529(FM)

**2.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi ei gynnal gyda Newsquest ynglŷn ag arian cyhoeddus â ddefnyddiwyd er mwyn sefydlu canolfan is-olygu y cwmni yng Nghasnewydd? OAQ(5)0542(FM)**W**

**3.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru o ran gofal cymdeithasol? OAQ(5)0532(FM)

**4.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i feithrin gwydnwch emosiynol ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru? OAQ(5)0540(FM)

**5.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro dros y 12 mis nesaf? OAQ(5)0527(FM)

**6.** **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa triniaethau newydd? OAQ(5)0533(FM)

**7.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Chyngor Caerdydd ynghylch y ddarpariaeth gorsaf fysiau newydd yn y ddinas? OAQ(5)0538(FM)

**8.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn tanio Erthygl 50, pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu eu cael â Llywodraeth y DU ynghylch sefydlu marchnad sengl i'r DU? OAQ(5)0537(FM)

**9.** **David Melding (Canol De Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo rhaglenni mentoriaeth menywod yn gadarnhaol yn y gweithle? OAQ(5)0530(FM)

**10.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ystyried ailagor cyfleusterau iechyd meddwl amenedigol i gleifion mewn ysbytai? OAQ(5)0526(FM)

**11.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ba mor ddigonol yw amddiffynfeydd llifogydd arfordirol yng Ngorllewin Clwyd? OAQ(5)0531(FM)

**12.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gaffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(5)0536(FM)**W**

**13.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gwasanaethau canser ym Merthyr Tudful a Rhymni? OAQ(5)0539(FM)

**14.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(5)0534(FM)

**15.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu Strategaeth Arthritis Genedlaethol? OAQ(5)0541(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 4 Ebrill 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Treftadaeth Cymru – partneriaeth strategol newydd a dyfodol Cadw (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Dyfodol Cyflenwi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ac Iechyd y Cyhoedd: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – flwyddyn yn ddiweddarach (45 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod yr eitemau a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
    - Gorchymyn Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu’r Weithdrefn) (Cymru) 2017
    - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2017
- Dadl: Cyfnod 4 y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd drwy’r Rhaglen Cartrefi Clyd (60 munud)

**Dydd Mercher 5 Ebrill 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Amserol (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar Benodiadau Gweinidogion: Gwrandawiadau cyn penodi gan Bwyllgorau'r Cynulliad (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Toriad: Dydd Llun 10 Ebrill 2017 – Dydd Llun 1 Mai 2017**

**Dydd Mawrth 2 Mai 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

**Dydd Mercher 3 Mai 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 9 Mai 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Carchardai a Llysoedd (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Undebau Llafur (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol yn ymwneud â Bil yr Undebau Llafur (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 10 Mai 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 eiliad (5 munud)

- Dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y Darlun Mawr: Sylwadau cychwynnol y Pwyllgor ar ddarlledu yng Nghymru (60 munud)
- Amser a ddyrannwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)